**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO** |
| **PWNC:** | **PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO - DYDD IAU, 6 CHWEFROR 2025 DYDD IAU, 6 CHWEFROR 2025** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **SWYDDOG CYMORTH DEMOCRATAIDD A PHWYLLGORAU** |

---

PRESENNOL: L. WINNETT (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: M. Day
J. Holt
G. Humphreys
E. Jones
J. Millard
L. Parsons
C. Smith
J. Thomas
D. Wilkshire

A: Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu
Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu
Arweinydd Tîm Amgylchedd Adeiledig
Swyddog Gorfodi
Cyfreithiwr

Siaradwr Cyhoeddus
Carwyn Roberts (ar ran yr Ymgeisydd) Cais Rhif C/2023/0212

**PENDERFYNIADAU DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd nad oedd unrhyw geisiadau wedi dod i law am y | |

| | | |
|---|---|---|
| | gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth:-<br><br>Y Cynghorwyr Wayne Hodgins a Jen Morgan<br>Y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu ac Ystadau | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU O FUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni hysbyswyd ynghylch unrhyw ddatganiadau o fuddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **<u>MEYSYDD AR GYFER SESIYNAU BRIFFIO A HYFFORDDIANT AELODAU</u>**<br><br>Ni chodwyd unrhyw feysydd ar gyfer Sesiynau Briffio/Hyfforddiant Aelodau. | |
| No. 5 | **<u>ADRODDIAD CEISIADAU CYNLLUNIO</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu, ac ar hynny:-<br><br>**<u>Cais Rhif C/2023/0212</u>**<br>**<u>Fferm Penrhiwgwaith, Lôn Pen-Rhiw-Gwaith, Llwyncelyn, Y Coed Duon, NP12 0ST</u>**<br>**<u>Gosod tyrbin gwynt a seilwaith cysylltiedig gan gynnwys sylfaen tyrbin, llawr caled ar gyfer craen/ardal cadw offer, gwella trac mynediad presennol, cynhwysydd trawsnewidydd a cheblau cysylltiedig</u>**<br><br>Yn dilyn cynnal pleidlais, yr oedd ei chanlyniad yn unfrydol<br><br>PENDERFYNWYD **<u>RHOI</u>** caniatâd Cynllunio gyda'r amodau a oedd wedi'u nodi yn yr adroddiad a rhoi pwerau dirprwyedig i Swyddogion Cynllunio ddiwygio geiriad yr amodau fel y bo angen. | |

| | | |
|---|---|---|
| No. 6 | **DIWEDDARIAD AR APELIADAU, YMGYNGORIADAU A DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL CHWEFROR 2025**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu ac Ystadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth ynddo. | |
| No. 7 | **GWYBODAETH AM BERFFORMIAD CHWARTEROL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth ynddo. | |
| No. 8 | **RHESTR O GEISIADAU Y PENDERFYNWYD ARNYNT RHWNG 22 TACHWEDD 2024 A 23 IONAWR 2025**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Cymorth Busnes.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth ynddo. | |
| No. 9 | **PENDERFYNIAD CYNLLUNIO A GORFODI – TIR YN A'R TU ÔL I UNDERHILL, HAWTHORN ROAD, GLYN EBWY NP23 5HS**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar Benderfyniad Cynllunio a Gorfodi.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r penderfyniad ynglŷn â'r Apêl a oedd wedi'i gynnwys ynddo. | |
| No. 10 | **ACHOSION GORFODI A GAEWYD RHWNG 30 MEDI 2024 AC 15 IONAWR 2025**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol ynglŷn â phrawf budd y cyhoedd, sef at ei gilydd bod budd y cyhoedd trwy gynnal yr esemptiad yn gwrthbwyso budd y cyhoedd pe datgelid yr | |

| | | |
|---|---|---|
| | wybodaeth ac y dylai'r adroddiad fod yn esempt.<br><br>PENDERFYNWYD y dylid eithrio'r cyhoedd tra bo'r eitem fusnes hon yn cael ei thrafod gan ei bod hi'n debygol y byddai gwybodaeth yn cael ei datgelu sy'n esempt yn ôl y diffiniad ym Mharagraff 12, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu ac Ystadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a oedd yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas ag unigolyn penodol a nodi'r wybodaeth ynddo. | |